



Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus

Ymateb Cyngor Gwynedd

Cyflwyniad

Lansiodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ym mis Rhagfyr 2018 sy'n amlinellu eu cynigion ar gyfer gwella'r fframwaith deddfwriaethol yng Nghymru ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau bysiau lleol yng Nghymru, a hefyd ar gyfer diwygio'r drefn drwyddedu ar gyfer tacsis a cherbydau hurio preifat.

Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys cynigion sy'n amlinellu amrywiaeth o opsiynau a fydd yn grymuso awdurdodau lleol i benderfynu ar y model mwyaf priodol ar gyfer darparu gwasanaethau bysiau yn eu hardaloedd. Mae hefyd mynd i'r afael â'r anghysonderau a'r heriau o ran trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat. I'r perwyl hwn, mae'r Papur yn gwahodd y cyhoedd, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid yn y diwydiant i ystyried y cynigion ac i anfon eu hymateb i Lywodraeth Cymru.

Dylid egluro fod Gwynedd eisoes yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Ardaloedd Arfon a Dwyfor) yn ogystal â Thyfu Canolbarth Cymru (Ardal Meirionnydd) mewn perthynas â thrafnidiaeth gyhoeddus a materion cysylltedd trafndiaeth yn gyffredinol. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi cydweithio â'i bartneriaid i baratoi ei ymateb i Ran 1 o'r Papur Gwyn, sef Gwasanaethau Bws.

Yn yr un modd, mae ymateb y Cyngor i Ran 2 o'r Papur Gwyn, sef Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat, yn seiliedig ar ymateb y Panel Arbenigol Trwyddedu Cymru Gyfan ar ran Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru. Mae swyddogion Cyngor Gwynedd ac aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol wedi cyfrannu sylwadau fel rhan o'r ymateb i'r rhan hwn.

Mae ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwestiynau penodol yn y Papur Gwyn fel a ganlyn:

Rhan 1 – Gwasanaethau Bws

Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth

Cwestiwn 1 - A ydych yn cytuno ei bod yn bwysig i Awdurdodau Lleol weithio gyda'i gilydd o ran gwasanaethau bysiau lleol? Ydw/Nac ydw? Eglurwch eich ateb.

Ydw. Mae eisoes ymrwymiad gwleidyddol i weithio ar y cyd ar draws y rhanbarthau i gyflwyno cynllunio a gwasanaethau trafndiaeth strategol mewn perthynas â thrafnidiaeth gyhoeddus a materion cysylltedd trafndiaeth yn gyffredinol. Mae gweithio gyda'n gilydd yn arwain at ymagwedd cydgyssylltiedig rhwng yr awdurdodau lleol ac yn cysoni safonau ar draws, a rhwng, y rhanbarthau. Mae hyn eisoes yn digwydd i ryw raddau fel y gwelir gyda'r gwaith partneriaeth drwy'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a TraCC (Tyfu Canolbarth Cymru) .

Mae'r Cyngor yn cydnabod fod y lefel o arbenigedd lleol yn y maes cludiant yn lleihau. Felly, mae'r gallu i adnabod ffyrdd o wella'r berthynas rhwng awdurdodau lleol i'w groesawu. Gallai hyn wella'r ddarpariaeth trafndiaeth i'r cyhoedd a sicrhau bod gan ddefnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus well cysylltedd.

Cwestiwn 2 - Rhowch sylwadau ar y strwythurau sefydliadol arfaethedig. Beth yw'r opsiwn a ffefrir gennych a pham?

O ran yr egwyddor o weithio'n rhanbarthol neu'n genedlaethol, mae'r Cyngor yn credu'n gryf mai ar sail rhanbarthol a ddylid gwneud hyn yn hytrach nag ar sail Cymru gyfan. Fyddai hyn yn sicrhau trefniadau llywodraethol lleol a byddai unrhyw benderfyniadau a wneir yn fwy priodol a pherthnasol i'r rhanbarth. Fel yr amlinellwyd yng Nghwestiwn 1, gwnaed cynnydd sylweddol eisoes mewn perthynas â hyn.

Teimlwn y byddai gweithio ar draws Cymru gyfan yn heriol o ganlyniad i'r pellteroedd. Yn ogystal, mae risg y byddai'r strwythur sefydliadol ar ei gyfer yn afrosgo ac yn analluog i ddiwallu gwir anghenion yr awdurdodau lleol a'r rhanbarthau.

Mewn perthynas â sefydlu Cyd-awdurdod(au) Trafndiaeth, y cwestiwn sylfaenol ynglŷn â'r rhain yw 'pa werth ychwanegol maent yn eu cynnig tu hwnt i weithio'n effeithiol ar y cyd yn rhanbarthol?' Mae'r Papur Gwyn ond yn cynnwys cynigion lefel uchel am eu ffurfiant. Felly, mae'n anodd i ni ddeall yn bresennol beth yn union fyddai'r manteision o'u ffurfio. I'r perwyl hwn, fyddai'r Cyngor yn angen rhagor o wybodaeth cyn y gallai rhoi barn gadarnhaol ar y mater.

Os dewisir i weithio ar sail ranbarthol neu ar sail Cyd-awdurdodau Trafndiaeth ranbarthol, byddai'n well gan y Cyngor weld pedwar corff rhanbarthol yn hytrach na'r tri sy'n cael ei gynnig yn y Papur Gwyn.

Cwestiwn 3 - A oes strwythur sefydliadol arall ar gyfer Cyd-awdurdodau Trafndiaeth y dylwn ei ystyried? Rhowch ddisgrifiad.

Roedd rôl y pedwar consortium rhanbarthol yn y gorffennol (roedd Gwynedd yn rhan o Taith a TraCCe) yn ffordd effeithiol o bartneriaethu i gyflwyno cynllunio trafndiaeth a chyflenwi rhaglenni heb orfod creu awdurdod penodol drwy ddeddfwriaeth ar ei gyfer. O ganlyniad, mae yna eisoes ddealltwriaeth o'r math o ffrydiau gwaith sydd eu hangen i fwrw ymlaen â chyflawni ar lefel ranbarthol. Byddai modd eu hail-gyfansoddi i lywodraethu'n rhanbarthol a gweithio ochr yn ochr gyda Thrafnidiaeth Cymru i gyflwyno trafndiaeth integredig. Byddai hyn yn golygu cael pedwar corff cynrychioliadol rhanbarthol yn hytrach na'r tri Cyd-awdurdod Trafndiaeth ranbarthol a awgrymir yn y Papur Gwyn.

Cwestiwn 4 - A oes gennych unrhyw sylwadau ar y cynnig y dylid cynrychioli Gweinidogion Cymru ar Gyd-awdurdod Trafndiaeth neu ar unrhyw bwyllgorau Cyd-awdurdod Trafndiaeth?

Mae'r Cyngor yn cydnabod y byddai cael Gweinidogion Cymru yn cyfrannu at y Cyd-awdurdodau Trafndiaeth yn atgyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflawni. Byddai hefyd yn rhoi dealltwriaeth iddynt o'r cyfyngiadau y mae awdurdodau yn eu hwynebu i gyflawni'n lleol. Gallai cyfraniad y Gweinidogion fod o fudd hefyd i gyflawni polisiâu a strategaethau yn y dyfodol.

Fodd bynnag, gallai materion gwrthdaro buddiannau godi os oes gan Weinidogion rôl yn llywio'r Cyd-awdurdodau. O ganlyniad, byddai'n rhaid cytuno ar rolau a chyfrifoldebau ymlaen llaw.

Cwestiwn 5 - A oes gennych unrhyw sylwadau ar y cynnig y dylai Gweinidogion Cymru gael pwerau i gyhoeddi canllawiau a chyfarwyddiadau, ac i ymyrryd pe bai Cyd-awdurdod yn methu ag arfer ei swyddogaethau yn effeithiol?

Mae'r cynnig y dylai Gweinidogion ddarparu arweiniad i'r rhanbarthau neu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth yn rhesymol a byddai cael canllawiau clir gan Lywodraeth Cymru yn helpu i gyflawni safonau cyson o wasanaeth a darpariaeth ledled Cymru.

Os bydd unrhyw Cyd-awdurdod Trafnidiaeth yn methu â chyflawni ei gyfrifoldebau neu i reoli ei gyllideb yn effeithiol, yna dylai fod mecanwaith i ddatrys methiannau o'r fath. Fodd bynnag, dylid cydbwysu hyn drwy graffu priodol ac effeithiol drwy lywodraeth leol.

Dylai ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru fod y dewis olaf.

Cwestiwn 6 - A yw'r dull arfaethedig o rannu swyddogaethau cenedlaethol a rhanbarthol yn briodol?

Byddai rhaid cael trafodaeth bellach a chytundeb ar y rhaniad gweithgaredd arfaethedig. Rydym yn cynnig bod angen datblygu'r cynigion manwl ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraethau lleol mewn ymgynghoriad â'r diwydiant a defnyddwyr bysiau.

Byddai angen rhagor o wybodaeth gan y Cyngor cyn gallu rhoi sylwadau ychwanegol ar hyn.

Cwestiwn 7 - A ddylid trosglwyddo unrhyw swyddogaethau eraill sy'n ymwneud â thrafnidiaeth i Gyd-awdurdod Trafnidiaeth? Disgrifiwch.

Nid yw'r Cyngor yn gallu amlygu unrhyw swyddogaethau eraill i'w trosglwyddo ar hyn o bryd.

Partneriaethau Ansawdd Estynedig

Cwestiwn 8 - A ydych yn meddwl bod angen deddfwriaeth i sicrhau'r manteision sy'n deillio o weithio ar ffurf bartneriaeth estynedig? Ydw/Nac ydw? Eglurwch eich ateb i'r cwestiwn hwn.

Ydw, mewn egwyddor. Mae'r Cyngor yn croesawu cyflwyno deddfwriaeth i alluogi awdurdodau lleol i gydweithio â gweithredwyr, ac yn cydnabod y gall Partneriaethau Ansawdd Estynedig gynnig opsiynau newydd i rai awdurdodau lleol gydweithio gyda darparwyr bws er bydd y cyhoedd. Sut bynnag, gan y gallant gymryd llawer o amser i'w sefydlu, ond cynlluniau partneriaethau ansawdd cyfyngedig sydd wedi'u llunio yng Nghymru hyd yma.

Byddai'r Cyngor yn angen rhagor o wybodaeth am y ddeddfwriaeth newydd cyn gallu rhoi barn gadarnhaol ar y mater.

Cwestiwn 9 - A ydych yn cytuno â'n cynigion ar gyfer Partneriaethau Ansawdd Estynedig, yn enwedig y broses arfaethedig o ddatblygu a gwneud Partneriaethau Ansawdd Estynedig? Ydw/Nac ydw? Eglurwch eich ateb i'r cwestiwn hwn.

Ydw, mewn egwyddor. Mae gan y cynigion ar gyfer Partneriaethau Ansawdd Estynedig deilyngdod, yn enwedig o ran dileu'r cyswllt penodol mewn perthynas â gwella'r isadeiledd a gynhwysir yn y mecanweithiau presennol. Fodd bynnag, bydd dal angen cytundeb i gydweithio. Nid yw cael pwerau deddfu mwy hyblyg o reidrwydd yn arwain at y posibilrwydd o gael cytundeb.

Masnachfreinio

Cwestiwn 10 - A ydych yn meddwl bod y cynllun arfaethedig yn opsiwn mwy ymarferol ar gyfer masnachfreinio gwasanaethau bysiau lleol? Ydw/Nac ydw? Eglurwch eich ateb.

Ydw, mewn egwyddor. Mae masnachfreinio yn opsiwn a allai roi lefel uchel o reolaeth dros lwybrau bysiau. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y caiff ei gefnogi gan rai gweithredwyr bws gan fod potensial i weithredwyr bach lleol fethu a chystadlu yn erbyn rhai o'r gweithredwyr mawr. Bydd ei weithredu yn ddadleuol o ganlyniad.

Yn ogystal, bydd cyflwyno masnachfreinio yn anodd ei weinyddu ac yn gostus. Felly, ni ddylid cyflawni unrhyw fasnachfaint oni bai bod adnoddau ychwanegol yn cael eu dyrannu i ddarparu trafndiaeth gyhoeddus.

Heb achos busnes i ystyried, nid yw'r Cyngor yn gallu asesu'r effeithiau llawn ar hyn o bryd.

Cwestiwn 11 - A ydych yn meddwl y dylai fod yn ofynnol i'r asesiad fod yn ddarostyngedig i archwiliad annibynnol? Ydw/Nac ydw? Eglurwch eich ateb.

Mae'r Cyngor yn cefnogi cynigion i graffu'r gweithdrefnau a'r asesiadau a gynhelir gan yr awdurdodau lleol neu Gyd-awdurdodau Trafnidiaeth er mwyn sicrhau eu bod yn rhesymol. O ystyried yr effeithiau, dylai'r penderfyniadau a wneir fod yn gadarn a sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Gallai dull o'r fath hefyd helpu i ddatrys anghydfodau a allai godi rhwng gwahanol bartïon.

Cwestiwn 12 - A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y broses fasnachfreinio arfaethedig?

Nid oes gennym sylwadau pellach.

Cwestiwn 13 - A oes gennych unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r cynigion ynghylch dyroddi hawlenni dan amodau pan fo trefniadau masnachfreinio yn eu lle?

Byddai angen sicrhau fod yr adnoddau priodol ar gael er mwyn gweinyddu unrhyw drefniadau newydd. Mae'n debyg felly mai dim ond Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth fyddai a digon o adnoddau i ddyroddi hawlenni.

Cwestiwn 14 - A ydych yn cytuno y dylid ystyried yn benodol, fel rhan o unrhyw drefniadau i ddyfarnu contractau masnachfreinio, sut y gellir galluogi gweithredwyr bysiau bach a chanolig i fod yn rhan o'r broses gaffael? Ydw/Nac ydw? Eglurwch eich ateb.

Mae sir wledig fel Gwynedd yn dibynnu ar weithredwyr bach a chanolig i ddarparu gwasanaethau bws. O ganlyniad, maent yn bwysig i les ein trigolion ac i'r economi leol ac. Felly, dylai unrhyw drefn masnachfreinio alluogi i weithredwyr llai cymryd rhan. Byddai'r Cyngor yn cefnogi mecanweithiau o'r fath fel rhan o unrhyw ddeddfwriaeth.

Cwestiwn 15 - Pa drefniadau pontio y dylid eu hystyried er mwyn sicrhau na effeithir ar wasanaethau bysiau yn ystod y broses o baratoi masnachfaint?

Dylai'r achos busnes ystyried hwn a sicrhau bod proses yn cael ei rhoi ar waith gyda chytundeb y gweithredwyr bws a'r awdurdodau lleol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaethau presennol.

Gwasanaethau bws awdurdodau lleol

Cwestiwn 16 & 17 - A ydych yn meddwl y dylai awdurdodau lleol fod yn gallu rhedeg gwasanaethau bysiau yn uniongyrchol (h.y. gwasanaethau mewnlol)? O dan ba amgylchiadau y byddai hynny'n briodol yn eich barn chi? Yn eich barn chi, pa fesurau diogelu, os o gwbl, y dylai fod yn eu lle mewn perthynas â gwasanaethau mewnlol i sicrhau nad oes gan awdurdod lleol fantais annheg mewn marchnad dadreoleiddiedig, a pham?

Mae'r Cyngor yn cefnogi'r egwyddor o alluogi i awdurdodau lleol redeg gwasanaethau bws eu hunain.

Mae'r maes cludiant cyhoeddus wastad wedi bod yn faes heriol o ganlyniad i e.e. gweithredwyr bws yn colli eu trwyddedau gweithredu a mynd allan o fusnes; prinder cwmnïau bws o ansawdd i gynnig cystadleuaeth, cynnydd mewn prisiau am wasanaethau ac yn y blaen. Mae hyn wedi gadael darpariaeth gyfyngedig iawn yn rhai rhannau o Wynedd ac wedi arwain at wasanaethau diffygiol a chostau gweithredu drutach. Felly, byddai cael yr opsiwn o allu gweithredu gwasanaethau yn uniongyrchol (naill a'i lleol neu'n rhanbarthol) yn gallu cynorthwyo i sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu darparu sy'n canolbwyntio fwy ar safon y gwasanaeth nag elw.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cwestiynu pa mor hyfyw fyddai gweithredu gwasanaethau mewnlol mewn ardal wledig mewn gwirionedd. Fyddai angen achos busnes cadarn cyn meddwl symud ymlaen gyda chynnig fel hyn. Yn ogystal, byddai angen sicrhau bod unrhyw gynigion o'r fath yn cael eu cynllunio i weithio ochr yn ochr â gwasanaethau masnachol a gwasanaethau eraill, yn hytrach na chystadlu â gweithredwyr eraill.

Oedran bod yn gymwys ar gyfer prisiau siwrnai gonsesiynol gorfodol

Cwestiwn 18 - Ydych chi'n cytuno â chynnig Gweinidogion Cymru i alinio'r hawl i gerdyn teithio rhatach gorfodol ag oedran pensiwn menywod? Rhowch resymau dros eich atebion.

Mae'r Cyngor yn deall y rhesymwaith tu cefn i'r cynnig yma. Fodd bynnag, mae gennym bryderon pe bai'n cael ei wireddu.

Mae nifer helaeth o siwrneiau bws yng Ngwynedd yn cael eu gwneud drwy ddefnyddio tocyn teithio rhatach ac mae'n debygol y byddai cwtogi'r nifer o bobl sy'n gymwys i hawlio'r tocyn yn cael effaith ar rai o'n trigolion mwyaf bregus. Mae hyn yn cynnwys menywod sy'n agos at yr oedran pensiwn ond, yn anwybodus o'r newidiadau, yn darganfod yn sydyn y bydd rhaid iddynt aros hyd at chwe blynedd yn hwy am eu pensiwn gwladol gyda'r effaith ddilynol ar eu cynlluniau ymddeol.

Yn ogystal, fe all y newid gael effaith ar gyfanswm nifer y teithwyr ar wasanaethau penodol. Gallai hyn gael effaith gyfatebol ar werth masnachol y gwasanaethau. Mae'n anodd dyfalu beth fyddai'r gwir effaith ar y rhwydwaith cludiant cyhoeddus. Fodd bynnag, mae 'na bryder y gallai olygu mwy o gostau i awdurdodau lleol i gynnal y rhwydwaith presennol neu orfod torri rhai o'r gwasanaethau.

Pe bai'r cynnig yma'n cael ei wireddu, hoffai'r Cyngor wybod a fyddai modd ail-fuddsoddi unrhyw arian sy'n cael ei arbed i alluogi i ieuenctid rhwng 16 a 18 deithio am ddim, neu ymestyn yr oedran bod yn gymwys am docyn teithio ieuenctid yn fwy nag 18?

Byddair Cyngor yn angen dealltwriaeth lawn o'r goblygiadau cymdeithasol penderfyniad o'r fath a chael gwerthusiad llawn o'r opsiynau cyn gallu rhoi barn gadarnhaol ar y mater yma.

Cwestiwn 19 - Ydych chi'n cytuno mai newid fesul dipyn yw'r dull mwyaf priodol?

Os yw'r llywodraeth yn bwriadu gwneud newidiadau i'r meini prawf presennol, yna mae'r Cyngor o'r farn mai newid fesul dipyn fyddai'r dull mwyaf priodol o wneud hynny.

Gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus a monitro

Cwestiwn 20 – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i'w gwneud yn ofynnol i ryddhau data agored ar lwybrau amserlenni, prisiau a thocynnau? Ydw/Nac ydw? Eglurwch eich ateb.

Mae hwn yn gynnig rhesymol ac yn un y byddem yn ei gefnogi.

Byddai'r cynnig yn galluogi cyd-ddylunio gwasanaethau a rhwydweithiau yn well a byddai hefyd yn helpu awdurdodau lleol i nodi meysydd i'w gwella i gefnogi gwasanaethau. Fodd bynnag, rydym yn credu y byddai angen i'r cydymffurfiad yma fod yn amod contract.

Cwestiwn 21 - Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i alluogi awdurdodau lleol i gael y pŵer i gael gwybodaeth am wasanaethau sydd i'w canslo neu eu hamrywio, a lle y bo'n berthnasol, ddatgelu'r wybodaeth hon fel rhan o'r broses dendro? Ydw/Nac ydw? Eglurwch eich ateb.

Ydw. Mae'r cynnig yn rhesymol.

Rhan 2 - Taxis a cherbydau hurio preifat

Safonau cenedlaethol

Cwestiwn 22 - Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gyflwyno safonau cenedlaethol fydd yn berthnasol i bob tacsî a cherbyd hurio preifat yng Nghymru? Ydw/Nac ydw? Rhowch esboniad pellach.

Ydw. Mae hyn yn gyson â'r gwaith ymgynghori blaenorol a wnaed rhwng y Panel Arbenigol Trwyddedu ac arweinydd Llywodraeth Cymru ar ddiwygio taxis yng Nghymru. Mae hefyd yn gyson ag argymhelliad 2 a wnaed gan y "Ministerial Working Party into Hackney Carriage and Private Hire Licensing in England [2018]" ac adolygiad Comisiwn y Gyfraith "Reforming the Law of Taxi and Private Hire Services" [2012]".

Byddai safonau cenedlaethol yn sicrhau bod gwasanaethau taxis yn cael eu cyflwyno'n gyson ledled Cymru ac yn ymdrin ag unrhyw ganfyddiadau o anghysondebau diangen ar draws Cynghorau.

Cwestiwn 23 - A oes unrhyw faterion yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys mewn unrhyw safonau cenedlaethol?

Dylid diffinio safonau cenedlaethol ar wahân ar gyfer cerbydau, gyrwyr a gweithredwyr. Dylid cynnwys y materion a ganlyn, er nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr:

- Gwiriadau DBS a Rhestr Wahardd Uwch (tystysgrifau am ymddygiad da ar gyfer ymgeiswyr tramor) ar gyfer gyrwyr, gweithredwyr, perchnogion ac anfonwyr. Mae'r Panel yn credu bod angen archwilio cefndir unrhyw un sy'n cymryd neu'n dal gwybodaeth bersonol am unigolyn i sicrhau fod y person yn addas a phriodol ("fit and proper").

- Mae angen i'r meddyg sy'n cwblhau'r gwiriad nodi ffitrwydd meddygol yr ymgeisydd ac yn benodol y gofyniad Safonau Meddygol Grŵp 2 a'r angen am hanes meddygol llawn yr ymgeisydd. Yn ogystal, dylai'r safonau ystyried cysondeb y mater o dystysgrifau eithrio o ran dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb.
- Gwiriadau mewnfudo, yn enwedig yr Hawl i Weithio yn y DU
- Addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded. Mae'r Institute of Licensing wedi cyhoeddi canllawiau ar bennu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded yn y diwydiant cerbydau hacni a hurio preifat. Dylid ymgorffori'r meini prawf a ddefnyddir yn y canllaw hwn mewn unrhyw safonau cenedlaethol.
[https://www.instituteoflicensing.org/documents/Guidance_on_Suitability_Web_Version_\(16_May_2018\).pdf](https://www.instituteoflicensing.org/documents/Guidance_on_Suitability_Web_Version_(16_May_2018).pdf)
- Cymwysterau galwedigaethol a gydnabyddir yn genedlaethol, yn cynnwys hyfforddiant ansawdd ac ymwybyddiaeth o anabledd, hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelu (Cam-drin Plant/Cam-fanteisio ar Blant yn Rhywiol, Llinellau Cyffuriau), prawf safonau gyrru ymarferol, sgiliau cyfathrebu a llythrennedd, gofal cwsmer, ymdrin ag argyfwng, rheoli gwrthdaro, ac ati.
- Prawf gwybodaeth ac addasrwydd (llythrennedd, rhifedd, rheolau'r ffordd fawr, amodau, gwybodaeth am yr ardal leol).
- Trwyddedau gyrru tramor

Yn ogystal, byddai'r Cyngor yn argymhell cynnwys y materion a ganlyn mewn perthynas â cherbydau:

- Safonau Archwilio Cenedlaethol ac amllder archwiliadau a phrofi, gan gynnwys y meini prawf ar gyfer profi. Yn ogystal, dylid ystyried addasrwydd, annibyniaeth ac argaeledd gorsafoedd profi a sut y'u cymeradwyir, e.e. ystyried p'un a yw'n briodol defnyddio gorsafoedd profi ym mherchnogaeth y Diwydiant.
- Dyluniad ac ymddangosiad a gofynion gofodol mewnol cerbydau, gan gynnwys y dull o adnabod tacsis a cherbydau hurio preifat.
- Y wybodaeth a ddylai fod wedi'i chynnwys ar unrhyw ffynhonnell adnabod cerbyd (platiau, arwyddion drws).
- Safonau ar gyfer cerbydau arbenigol a difyrrwch, megis limosîn, ceir priodasau ac angladdau, omnibysiau a phedi-cabiau.
- Safonau Mesurydd Tacsî gan gynnwys y meini prawf ar gyfer mesuryddion Pulse a GPS.
- Y defnydd o TCC mewn cerbydau a'r safonau cysylltiedig, awdio a fideo fel y'i hamlinellir yn argymhelliad 17 ac 18 "Ministerial Working Party into Hackney Carriage and Private Hire Licensing in England [2018]". Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cynhyrchu cyngor i gynghorau a sefydliadau eraill o ran defnyddio gwyliadwriaeth a systemau TCC mewn tacsî trwyddedig. Dylai safon genedlaethol ystyried y cyngor hwn.
<https://ico.org.uk/about-the-ico/news-and-events/blog-continuous-cctv-in-taxis-where-do-councils-stand> Yn ogystal, mae'r Canllawiau LGA wedi'u cyhoeddi bellach.
<https://www.local.gov.uk/developing-approach-mandatory-cctv-taxis-and-phvs> Efallai y bydd y gost o osod TCC mewn cerbydau trwyddedig, yn enwedig i fusnesau bach, yn gofyn am gymhorthdal gan Lywodraeth Cymru.
- Cadw cofnodion, gan gynnwys y cyfnod cadw angenrheidiol. Cred y Panel, yn ddelfrydol, dylid cadw cofnodion ar gyfer pob siwrne; fodd bynnag, mae anawsterau ymarferol amlwg wrth weithredu dull fel hyn. Dewis gwell fyddai defnyddio technoleg i wella'r prosesau diogelu. Nid yn unig y byddai defnyddio TCC, tracwyr a systemau GPS yn rhoi system fwy cadarn ar gyfer cadw cofnodion, ond byddai hyn hefyd yn golygu nad oes angen rhoi byrdwn gweinyddol ar yrwyr tacsî.
- Ystyriaethau amgylcheddol megis safonau allyriadau cerbyd.

Mae'r safonau ar gyfer rhai o'r pwyntiau a argymhellir uchod wedi'u cynnwys mewn canllawiau eisoes ac fe ddylid eu hystyried wrth ddatblygu unrhyw safonau cenedlaethol, megis y Department of Transport Taxi and Private Hire Vehicle Licensing: Best Practice Guidance (Mawrth 2010) er bod hwn angen ei ddiweddarau.

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/212554/taxi-private-hire-licensing-guide.pdf

Yn ogystal, byddai'r Cyngor yn argymhell gwneud hyfforddiant yn orfodol i'r holl unigolion sy'n gysylltiedig â'r broses gwneud penderfyniadau ar faterion trwyddedu. Mae'n hanfodol hyfforddi swyddogion, cynghorwyr a chlercod cyfreithiol yr Ynadon (ar gyfer apeliadau) yn gyson a phriodol er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n gweithredu'r safonau yn gymwys i wneud hynny. Dylai cynnwys yr hyfforddiant lunio rhan o'r safonau cenedlaethol.

Yn olaf, dylai unrhyw safonau cenedlaethol a ddatblygir fod yn gyson â'r meini prawf sydd wedi'u gweithredu yn Lloegr er mwyn lleihau'r amrywiaethau yn y gofynion i yrwyr, cerbydau a gweithredwyr, yn enwedig o gwmpas ardaloedd y ffin.

Cwestiwn 24 - A oes unrhyw faterion yr ydych yn credu y dylid eu heithrio o unrhyw safonau cenedlaethol?

Nid oes unrhyw faterion y dylid eu heithrio, er na ddylai safonau cenedlaethol ddyblygu deddfwriaeth arall.

Cwestiwn 25 - Pa rwystrau ymarferol allai fodoli o ran gosod safonau cenedlaethol cyffredin ar gyfer tacsis a cherbydau hurio preifat?

Y prif rwystr fydd ymgorffori'r safonau cenedlaethol i'r 10,000 o gerbydau a'r 12,000 o yrwyr sydd wedi'u trwyddedu yng Nghymru ar hyn o bryd, a'r darpariaethau fydd angen bod yn eu lle ar gyfer trefniadau trosiannol a hawliau teidiau. Yn ogystal, bydd angen ystyried dod o hyd i safonau cyson ac addas fydd yn gweithio mewn ardaloedd trefol a gwledig fel ei gilydd.

Cwestiwn 26 - Beth fyddai'r dull gorau o bennu cynnwys y safonau cenedlaethol?

Mae nifer o bolisiau cenedlaethol eisoes yn eu lle sydd wedi'u mabwysiadu gan nifer o Awdurdodau Lleol yng Nghymru er mwyn darparu lefel o gysondeb rhwng ardaloedd, er enghraifft:

- Safonau Archwilio Cenedlaethol ar gyfer cerbydau hacni a hurio preifat, a
- Yr Institute of Licensing o ran pennu addasrwydd ymgeiswyr a'r trwyddedau yn y diwydiant cerbydau hacni a hurio preifat.

Yn ogystal, ceir rhai enghreifftiau rhagorol lle mae polisiau a safonau trwyddedu tacsis lleol yn eu lle sydd wedi'u datblygu a'u gweithredu ar lefel leol.

Yn gyntaf, bydd Llywodraeth Cymru angen sefydlu pa bolisiau a safonau sydd eisoes yn eu lle yng Nghymru ac yna tynnu ar wybodaeth ymarferwyr trwyddedu sydd â phrofiad ymarferol arbenigol o wneud gwaith trwyddedu tacsis yn ddyddiol.

Byddai Llywodraeth Cymru yn esgeulus iawn pe bai'n diystyru unrhyw bolisiau, safonau neu weithdrefnau sydd wedi'u datblygu gan bobl broffesiynol yn y maes trwyddedu ac sydd, mewn gwirionedd, yn ceisio cyflwyno gwasanaeth cadarn yn erbyn cefnlen o ddeddfwriaeth sy'n annigonol ac sydd wedi dyddio.

Mae Panel Arbenigol Trwyddedu Cymru Gyfan yn cynnwys rheolwyr ac arweinwyr tîm sydd â gwybodaeth a phrofiad helaeth yn y maes trwyddedu tacsis ac, heb os nac oni bai, byddai angen eu cynnwys yn helaeth yn y gwaith o ddatblygu safonau cenedlaethol.

Awgrymir y byddai angen i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â grwpiau diogelwch teithwyr a chynrychiolwyr y gweithredwyr yn ogystal, a hynny drwy gyfarfodydd, seminarau a gweithdai.

Cwestiwn 27 - Nodwch unrhyw sylwadau neu gynigion eraill mewn perthynas â'r safonau cenedlaethol na dderbyniodd sylw yn y cwestiynau uchod.

Bu i ymgynghoriad blaenorol Llywodraeth Cymru ar Drwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat yng Nghymru [WG31865] gyfeirio at: “national standards for all taxis and private hire vehicles, set by Welsh Ministers, with the power for local licensing authorities to set additional conditions where it is appropriate to do so”.

Er nad yw'r Papur Gwyn yn gwneud unrhyw gyfeiriad at safonau cenedlaethol sylfaenol, mae'n werth nodi na fyddai'r Cyngor yn argymhell bod awdurdodau trwyddedu lleol yn cael caniatâd i osod amodau lleol ychwanegol uwchben y safon genedlaethol.

Gorfodaeth

Cwestiwn 28 - A ddylai Awdurdod Lleol fedru diddymu neu atal trwydded sy'n ymwneud ag unrhyw gerbyd sy'n gweithredu yn ei ardal, hyd yn oed os mai rhywun arall gyflwynodd y drwydded wreiddiol? Dylai/Na ddylai? Rhowch esboniad pellach.

Mae'r Cyngor yn credu mai cyfrifoldeb yr Awdurdod Trwyddedu cartref yw diddymu trwydded cerbyd. Lle bo argymhelliad i weithredu i ddiddymu trwydded, mae'n hanfodol bod deiliad y drwydded yn cael y cyfle i gael ei glywed, h.y. cyfle i gael gwrandawriad teg; mae hyn yn ofyniad yn Erthygl 6 y Ddeddf Hawliau Dynol sy'n gwarchod eich hawl i wrandawriad teg. Yn ogystal, bydd gan yr Awdurdod Trwyddedu sydd wedi cyflwyno'r drwydded wybodaeth leol werthfawr ynghylch deiliad y drwydded, mynediad uniongyrchol i hanes y cerbyd ac unrhyw gwynion a dderbyniwyd a dylai fod yn gyfrifol am adennill unrhyw ffioedd sy'n gysylltiedig â chymryd y camau gorfodaeth. Nodir nad oes cynigion mewn perthynas â gosod ffioedd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn.

Fodd bynnag, cred y Cyngor ei bod yn briodol i unrhyw swyddog awdurdodedig o unrhyw ardal Awdurdod Trwyddedu gael y grym i atal ar unwaith (Adran 68, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976), trwydded unrhyw gerbyd sy'n gweithredu yn ei ardal (waeth lle y cafodd ei drwyddedu), lle bo risg uniongyrchol i ddiogelwch y cyhoedd, e.e. teiar diffygiol, neu o bosib lle bo'r cerbyd yn methu â bodloni'r safonau cenedlaethol, e.e. arwyddion drws / platiau cefn ar goll. Yna, byddai'r awdurdod sy'n cyflwyno'r gwaharddiad yn adrodd ar y mater i'r Awdurdod Trwyddedu cartref er mwyn iddynt hwy ystyried p'un i godi'r gwaharddiad neu gymryd camau pellach.

Cwestiwn 29 - A ddylai Awdurdod Lleol fedru cyflwyno cosb lai mewn perthynas ag unrhyw gerbyd sy'n gweithredu yn ei ardal, hyd yn oed os mai rhywun arall gyflwynodd y drwydded wreiddiol? Dylai/Na ddylai? Rhowch esboniad pellach.

Mae'r Cyngor yn ystyried bod hyn o fudd i gynorthwyo'r Awdurdod Trwyddedu cartref er mwyn pennu p'un a oes angen unrhyw weithredu pellach, e.e. hysbysiad gwella / cynghorol / rhybudd. Er enghraifft, byddai cyflwyno system o Hysbysiadau Cosb Sefydlog yn dod â gorfodaeth tacsis a hurio preifat yn unol â meysydd eraill mewn llywodraeth leol. Byddai angen datblygu rhyw fath o gynllun cyfeirio er mwyn hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu a roddodd y drwydded; fodd bynnag, byddai angen rhoi ystyriaeth bellach i oblygiadau ymarferol hyn.

Cwestiwn 30 - Nodwch unrhyw sylwadau neu gynigion eraill mewn perthynas â gorfodaeth na dderbyniodd sylw yn y cwestiynau uchod.

Mae Panel Arbenigol Trwyddedu Cymru Gyfan wedi bod yn trafod â Llywodraeth Cymru yn y gorffennol ynghylch cyflwyno'r grym i stopio a chyfarwyddo tacsis a cherbydau hurio preifat. Byddai hyn yn ychwanegiad defnyddiol a buddiol i'r dewisiadau gorfodaeth sydd ar gael i awdurdodau lleol ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd, ni all Awdurdodau Lleol roi amodau ar drwyddedau gyrrwyr cerbydau hacni; mae gan rai awdurdodau lleol Is-ddeddfau yn eu lle, a byddem yn argymhell ymgorffori unrhyw gydran berthnasol o'r rhain yn y safonau cenedlaethol.

Byddai'r Cyngor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno darpariaethau gorfodaeth eraill, megis pan fo gyrrwr yn gwrthod taith gan ei bod yn daith fer, neu mewn achosion o godi gormod o ffi.

Yn ogystal, byddai'r Cyngor yn argymhell gwneud hyfforddiant yn orfodol i'r holl unigolion sy'n ymwneud â'r broses gwneud penderfyniadau ar faterion trwyddedu (fel y nodwyd uchod). Mae'n hanfodol hyfforddi swyddogion, cynghorwyr (yn cynnwys clercod cyfreithiol yr Ynadon yn ogystal) yn gyson a phriodol er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n gweithredu'r safonau yn gymwys i wneud hynny. Dylai cynnwys yr hyfforddiant lunio rhan o'r safonau cenedlaethol.

Rhannu Gwybodaeth

Cwestiwn 31 - Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i greu cronfa ddata neu wneud trefniadau eraill er mwyn rhannu gwybodaeth ddiogelu berthnasol? Ydw/Nac ydw? Rhowch esboniad pellach.

Mae sefydlu cronfa ddata cenedlaethol gorfodol o'r holl yrwyr trwyddedig yn allweddol; fodd bynnag, dylid ehangu'r gronfa ddata hon i gynnwys cerbydau a gweithredwyr, perchnogion ac anfonwyr, i gefnogi gorfodaeth gryfach. Rhaid sefydlu hyn yn gyflym.

Yn y cyfamser, mae'r Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol (NAFN) yn darparu cofrestr ar-lein o yrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat sydd wedi cael eu gwrthod neu os ydyw eu trwydded wedi'i diddymu. Mae'r gronfa ddata hon yn cynnwys y rhesymau am unrhyw wrthodiad neu ddiddymiad, ynghyd â manylion yr Awdurdod Trwyddedu perthnasol. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i orchymyn bod hwn yn cael ei ddefnyddio, fel blaenoriaeth. Mae Panel Arbenigol Trwyddedu Cymru Gyfan wedi cytuno mewn egwyddor i ddefnyddio'r gronfa ddata hon ac yn ystod yr ymgynghoriad hwn, roedd yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru yn bwrw ymlaen ar hyn.

Yn ogystal, rhaid i unrhyw gronfa ddata cenedlaethol fedru derbyn neu gysylltu â chronfa ddata cyfatebol yn Lloegr, er mwyn osgoi dyblygu unrhyw fewnbyniad data a sicrhau diogelwch y cyhoedd, yn enwedig o amgylch ardaloedd ar y ffin.

Cwestiwn 32 - Nodwch unrhyw sylwadau neu gynigion eraill mewn perthynas â rhannu gwybodaeth na dderbyniodd sylw yn y cwestiynau uchod.

Mae darpariaethau'r Common Law Police Disclosure wedi'u hamlygu fel pryder dybryd gan y Panel Arbenigol Trwyddedu yn flaenorol. Nid yw'r cynigion hyn yn ymdrin â'r mater hwn. Awgryma'r Panel y dylid adolygu'r darpariaethau datgelu presennol i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ynghylch troseddau ac ymddygiad gyrwyr tacsï a cherbydau hurio preifat, gan gynnwys gwybodaeth am achosion o arestio, cyhuddo ac euogfarnau, yn cael ei rhannu â'r Awdurdod Trwyddedu ar unwaith.

Mae'r Panel yn gwerthfawrogi y gall Llywodraeth Cymru fod wedi'i gyfyngu mewn perthynas â dylanwadu ar yr awgrym hwn, ond mae'n hanfodol sicrhau bod yr holl yrwyr, gweithredwyr, perchnogion ac anfonwyr yn saff ac yn addas. Croesawir unrhyw ddylanwad y gallai Llywodraeth Cymru ei gael ar hyn i wella rhannu gwybodaeth ar sail diogelwch y cyhoedd.

Cyd-awdurdod Trafnidiaeth

Cwestiwn 33 - A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ailgyfeirio'r holl swyddogaethau trwyddedu tacsï a cherbydau hurio preifat o awdurdodau lleol i Awdurdod Trwyddedu cenedlaethol (Dewis A)? Ydw/Nac ydw? Rhowch esboniad pellach.

Ni fyddai'r Cyngor yn cefnogi'r cynnig yn seiliedig ar y wybodaeth sydd wedi'i darparu gan nad oes tystiolaeth i gefnogi'r angen i ailgyfeirio'r swyddogaeth trwyddedu tacsï a cherbydau hurio preifat gyfredol i ffwrdd o Awdurdodau Lleol. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fanylion yn y papur gwyn hwn ynghylch sut fyddai'r JTA yn ymgymryd â'r swyddogaeth trwyddedu ac felly mae'n anodd iawn i ni ateb y cwestiwn hwn. Mae'r Cyngor yn teimlo nad oes digon o waith ymchwil wedi'i wneud mewn perthynas â'r bwriad hwn a bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gynhyrchu eglurhad llawer mwy manwl ynghylch sut fyddai'r JTA yn gweithio. Mae'r Cyngor yn teimlo y byddai mewn gwell sefyllfa i roi sylwadau ar y cynnig pe byddai hynny ar gael. Ein pryder mwyaf yw gwarchod y cyhoedd, ac nid oes unrhyw beth yn y cynnig hwn sy'n awgrymu mai diogelwch y cyhoedd sydd flaenllaw yn y cynnig hwn.

Dan y trefniadau presennol, mae gwerth a budd o wneud penderfyniadau lleol ar faterion tacsï; gydag aelodau etholedig drwy Bwyllgorau Trwyddedu a swyddogion yn sicrhau atebolrwydd lleol a gwleidyddol am benderfyniadau a wnaed, gan ddarparu dull cyson a chadarn sy'n cael ei arwain gan bolisiâu trwyddedu tacsï lleol a chanllawiau cenedlaethol.

